YR EGLWYS YNG NGHYMRU | THE CHURCH IN WALES

CORFF CYNRYCHIOLWYR YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE REPRESENTATIVE BODY OF THE CHURCH IN WALES

# CYNNWYS EGLWYSI

# POLISI A CHANLLAWIAU

Mae'r ddogfen hon yn ceisio diffinio polisi Corff y Cynrychiolwyr ar gynnwys eglwysi ac yn cynnig canllawiau i blwyfi ar sut i ofalu amdanynt a'u rheoli a'u gwaredu.

## Diffiniadau

Gellir dosbarthu cynnwys eglwysi yn ddau fath:

- **Cynnwys sefydlog**: a elwir yn osodiadau hefyd, eitemau sydd wedi'u hadeiladu i ffabrig yr adeilad (e.e. gwydr lliw, bedyddfeini sefydlog ac ati)

- **Cynnwys symudol**: a elwir yn ffitiadau hefyd, eitemau a roddir mewn adeilad am resymau addurniadol, litwrgïaidd neu ymarferol

Er bod yna wahanol amddiffyniadau cyfreithiol ar gyfer cynnwys boed yn gynnwys sefydlog neu'n symudol, maen nhw'n rhan annatod o gymeriad ac arwyddocâd eglwys, a dylai unrhyw benderfyniadau ar gyflwyno neu ddileu yn y dyfodol gael eu hystyried yn ofalus.

Gellir ystyried hefyd fod cynnwys eglwysi mor bwysig fel y gallent fod yn drysorau eglwysig. Byddai eitemau o'r fath yn drysorau pe bai ganddynt un neu fwy o'r nodweddion canlynol:

- Gwrthrych gwerthfawr
- Mynegiant o ffydd
- Wedi'i greu gan ddefnyddio sgiliau dynol o'r radd flaenaf
- O arwyddocâd defosiynol
- O arwyddocâd hanesyddol (ac felly'n brin)

Mae trysor eglwysig yn eithriadol ac yn anghyffredin. Nid yw oedran yn ffactor penderfynu; nid yw'r ffaith bod gwrthrych wedi bod mewn eglwys am ganrifoedd lawr yn ei wneud yn drysor eglwysig o reidrwydd. Yn yr un modd, gall gwrthrych a gomisiynwyd yn ddiweddar gael ei ystyried yn drysor eglwysig.

# POLISI CYNNWYS

## Cefndir

Mae cynnwys eglwysi'n eiddo i Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru. Fel yr eglwysi eu hunain, maen nhw'n cael eu rheoli, pan mae'r eglwys ar agor ar gyfer addoli, gan bob Cyngor Plwyf Eglwysig. Defnyddir y term Cyngor Plwyf Eglwysig yn y ddogfen hon i ddisgrifio'r corff ymddiriedolwyr lleol sy'n gyfrifol am reoli'r eglwys a'r fynwent. Gall y cyrff hyn gael eu galw wrth enwau eraill hefyd - Cyngor Ardal Weinidogaeth, Cyngor Ardal Weinidogaeth Leol, Cyngor Bywoliaeth Reithorol, Cynhadledd Ardal Genhadaeth, neu unrhyw derm arall a ddynodwyd gan bolisïau esgobaeth.

Dim ond Corff y Cynrychiolwyr sydd â'r pŵer i werthu cynnwys eglwys o dan y Cyfansoddiad ond nid oes diffiniad cyfansoddiadol o sut y dylid defnyddio unrhyw elw o werthiant. Yn gyffredinol, mae'r elw'n cael ei ddarparu i Blwyfi at ddibenion y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Eiddo.

Mae symud neu gyflwyno cynnwys i eglwys yn cael eu cwmpasu gan reolau hawlebau a bydd angen hawleb ddilys ar y cyfan, ac eithrio mewn rhai achosion prin .

Gan mai Corff y Cynrychiolwyr yw perchennog cyfreithiol cynnwys eglwysig, mae angen cael ei ganiatâd (yn ogystal â hawleb) i waredu unrhyw beth (yn cynnwys y dull o waredu).

Mae cynnwys yn dueddol o gael ei werthu ar ôl cau eglwys ddiangen, ond gyda mwy o gyfyngiadau ariannol, mae plwyfi'n ystyried gwerthu cynnwys nad yw'n cael ei ddefnyddio lawer i gael cymorth ariannol. Mae yna eitemau sy'n rhan o gynnwys eglwys sydd o werth hanesyddol a litwrgïaidd a allai olygu y byddent yn cael eu hystyried yn 'drysorau eglwysig'. Er bod gwerthiant eitemau o'r fath yn brin ar hyn bryd gan fod plwyfi'n dueddol o fod eisiau cadw'r eitemau arbennig hyn, mae'n bosibl y bydd ceisiadau i'w gwerthu yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf.

Mae rhywfaint o gynnwys yn cael ei gadw y tu allan i'r eglwys am resymau diogelwch (fel mewn cell banc). Gall hyn leihau'r gwerthfawrogiad a'r ymwybyddiaeth o'r gwrthrych i'r eglwys dan sylw dros amser. Fodd bynnag, ni ddylai hyn leihau gwerth cynhenid y gwrthrych a'r ystyriaeth ei fod yn drysor eglwysig. Nid yw'r ffaith nad yw'r gwrthrych yn werthfawr heddiw yn golygu nad oedd yn werthfawr i genedlaethau'r gorffennol ac na fydd yn werthfawr i genedlaethau'r dyfodol.

## Polisi

Polisi Corff y Cynrychiolwyr yw:

- annog pob plwyf i sicrhau gofal priodol i'w chynnwys yn enwedig eitemau o werth hanesyddol, litwrgïaidd neu gymunedol;
- cynnig cyngor, ar y cyd ag arbenigwyr a Phwyllgorau Ymgynghorol yr Esgobaethau, ar ofalu, diogelu a rheoli cynnwys;
- cefnogi'r llysoedd esgobaeth i ddyfarnu rheolaeth hawleb dros gynnwys;

- annog benthyciad byr dymor o eitemau a thrysorau pwysig i sefydliadau addas ar gyfer eu harddangos dros dro er mwyn ehangu gwerthfawrogiad o wrthrychau o'r fath:

    - ystyried benthyciad hirdymor gwrthrychau i sefydliadau cyhoeddus addas pan nad yw'r Eglwys yn gallu gofalu'n briodol amdanynt;

    - ymatal rhag gwerthu trysorau eglwysig hyd nes y bydd pob ffynhonnell gyllid neu ddull o warchod y gwrthrych, fel benthyciad hirdymor, wedi'u hystyried;

    - wrth waredu, sicrhau bod y gwerthiant yn cael ei gynnal yn agored drwy gymorth proffesiynol gyda'r nod o sicrhau'r gwerth gorau. Bydd ymdrech i osgoi gwerthiant preifat i unigolion ac eithrio yn achos mân eitemau e.e. pan fyddai clirio'n costio mwy na gwerth y gwrthrych;

    - sicrhau bod elw'r gwerthiant yn cael ei gyfeirio at ddibenion a fydd yn hyrwyddo cenhadaeth a gweinidogaeth yr Eglwys yn yr ardal lle cedwid y cynnwys a werthwyd.

# CANLLAWIAU AR REOLI CYNNWYS EGLWYSI

## Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn cynnig cyngor ymarferol i Gynghorau Plwyf Eglwysig ar broblemau nodweddiadol sy'n codi gyda chynnwys eglwysi.

## 1. Rhestri Eiddo

Mae'r Llyfr Log, y Tirlyfr a'r Rhestr Eiddo'n cael eu cynnal ar gyfer pob eglwys neu fan addoli arall a freiniwyd yng Nghorff y Cynrychiolwyr. Mae'r rhain yn ddogfennau pwysig iawn ac mae'n rhaid eu cadw mewn lle diogel, sych. Mae'n hanfodol cadw'r dogfennau hyn yn gyfredol, yn cynnwys y ffurflenni i Gorff y Cynrychiolwyr.

Mabwysiadwyd fformat dalennau rhydd er mwyn gallu atodi'r adroddiad arolygu pum mlynedd olaf ac unrhyw gynlluniau, ynghyd â manylion hawlebau. Dylid cadw cofnod manwl o waith a wnaed ar yr eglwys. Mae'n hanfodol bod y dogfennau hyn ar gael i'w harchwilio gan yr Archddiacon a'r Arolygydd Pum Mlynedd fel y bo gofyn. Os ydych yn defnyddio'r System Hawlebau Ar-lein, mae cofnod parhaol o bob cais am hawleb yn cael ei gadw ar-lein.

Mae'r dogfennau hyn yn amhrisiadwy ar gyfer bodloni'r gofyniad i wirio ac archwilio gwrthrychau gwerthfawr eglwys ac ati, pan fydd yn wag a monitro'r gwaith o symud eitemau rhwng eglwysi. Maen nhw'n ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol hefyd at ddibenion yswiriant a phrisio.

Dylid anfon copi o'r Llyfr Log, y Tirlyfr a'r Rhestr Eiddo i Gorff y Cynrychiolwyr sy'n cadw llyfrgell o'r rhain i gyd ar gyfer y Dalaith. Dylid adolygu'r dogfennau'n rheolaidd ac anfon diweddariadau i Gorff y Cynrychiolwyr.

## 2. Gofalu, Cynnal a Chadw a Glanhau

Mae angen gofalu am gynnwys a'i gynnal a'i gadw yn union fel y byddai adeilad yn cael ei gadw. Mae gwahanol eitemau o gynnwys yn gofyn am ddulliau gwahanol ac mae canllawiau rhagorol ar gael yn adran Adnoddau gwefan Eglwys Loegr yn: https://www.churchofengland.org.

Ar gyfer eitemau penodol, mae'n werth gofyn am gyngor neu ymchwilio i'r dull gorau, oherwydd mae'n bosibl y gellid mabwysiadu dull a fyddai'n difrodi cyflwr y gwrthrych trwy amryfusedd.

Mae Atodiad I yn cynnwys rhai argymhellion gan y Gymdeithas Gwarchod Adeiladau Hynafol (SPAB) a allai fod yn ganllaw cyflwyniadol defnyddiol i lanhau gwahanol rannau o'r eglwys.

Mae menter Ffydd ym maes Cynnal a Chadw SPAB (Faith in Maintenance) ar gyfer cynnal a chadw a gofalu am eglwysi, bellach wedi dod i ben ac mae ei gwefan wedi'i chynnwys yng ngwefan ehangach SPAB. Fodd bynnag, gellir dod o hyd i wybodaeth werthfawr am bob agwedd ar ofalu am eglwys yn adran Sylfaen Wybodaeth gwefan SPAB: https://www.spab.org.uk.

## 3. Yswiriant a Diogelwch

Mae cynnwys eglwysi wedi'u hyswirio o dan bolisi Parishguard gyda'r Ecclesiastical Insurance Group (EIG)[1] fel yr eglurant isod:

"I can confirm that our surveyors value portable contents within a church based on the cost of typical modern worthy replacement items. They do not include any allowance attaching to property by reason of its antiquity. Items of fixed contents, such as Reredos, Fonts and Pulpits are valued based on the cost of a craftsman recreating the item in question (a modern copy) using cost information supplied by third party joiners, carvers, stonemasons and metal workers.

Churches do have the option to insure on a Fine Art basis if they wish, however they would need to arrange for a professional valuation to be completed to identify suitable sums insured."

Mae gwerth yswiriant eitemau wedi'i gynnwys yn y swm sy'n cael ei yswirio ar gyfer pob eglwys ac mae yna derfyn ar werth unrhyw eitem benodol. Dylai Cynghorau Plwyf Eglwysig wirio eu polisi i sicrhau bod gwerthoedd yr yswiriant yn ddigonol ar gyfer y cynnwys. Dylid nodi bod eitemau prin yn amhosibl i'w prisio a'i bod hi'n anodd penderfynu ar lefel yr yswiriant o ganlyniad. Efallai y bydd hi'n briodol edrych ar yswiriant ar gyfer amnewid i eitem fodern, er y gall EIG gynghori ar opsiynau a chostau.

Mae eglwysi'n cael eu hannog i agor yn ystod y dydd. Un o'r pryderon am ganiatáu mynediad y tu allan i'r adegau addoliad yw'r potensial ar gyfer difrod neu i ddwyn cynnwys. Mae EIG yn cynnig y cyngor canlynol ar y mater:

*"Keeping churches open outside of services of worship is a vital element in the link churches have with the community they serve. An open door enables people to find a quiet place to pray, it offers somewhere to sit and think, and it enables visitors to the area to enjoy any historical treasures you may have. A steady flow of legitimate visitors also helps deter those with criminal intent.*

*If you can, try to have someone on duty in the church at all times by having a rota of church sitters, or organise cleaning, grass cutting and other routine activities so that there is someone in the church or churchyard for as much of the time as possible. If that is not realistic, you may be able to achieve a compromise by organizing set hours when volunteers are available, which can be displayed on the door.*

*Remember though that someone left on their own could be at risk, so you need to have measures in place for their personal safety. Ideally, church sitters should work in teams of two, they need to have some form of communication such as a mobile phone, and consideration should be given to providing personal attack alarms connected to an alarm system. There also needs to be someone readily available to respond to an alarm call.*

*All portable valuables should be marked with an EIG approved forensic marker such as SmartWater, and associated signage should be displayed prominently outside the church to*

[1]Fel yn 2014 gan Julie Moxey Dip CII, Uwch Yswiriwr, Tîm Cadeirlannau, Esgobaethau a Masnachol, EIG

*deter thieves. Lock away in a safe as many valuable and portable items as possible - certainly any silverware and also, if possible, brass and pewter items as these metals also have a value to thieves. The vestry can be used as a lockable area for smaller items of furniture and furnishings. To reduce the risk of arson, anything that could be used to start or feed a fire should be removed or locked away.*

*If a theft does occur, recovery is very much easier if there are photographs of all valuables and portable furniture. Keep two sets of photographs, one in the safe and one in a safe place away from the church.*

*Making the church building a focal point for the wider community can be a way of not only attracting visitors, but also of having people on site whose presence will deter thieves. In communities where local facilities are scarce or non-existent, some churches are playing their part by hosting activities such as post offices, village shops and even farmers' markets. Although complex to instigate, projects such as this do have the knock-on benefit of the broader community developing a stronger commitment to their parish church and also helping ensure its security because they feel a greater sense of involvement and ownership.*

*There are many ways of ensuring the security of your church whilst offering hospitality to people for whom this might make all the difference to their lives."*

Daw'r dyfyniad uchod o nodyn cyfarwyddyd EIG *Keeping your Church Open and Secure* sydd ar gael drwy ei brif wefan: https://www.ecclesiastical.com. Mae cyngor ar gadw'ch eglwys ar agor i'w gael yma hefyd.

## 4. Hawlebau a Chaniatadau

Mewn egwyddor, os cyflwynir neu os symudir unrhyw eitem o gynnwys i neu o eglwys, rhaid cael hawleb lawn gan Ganghellor yr Esgobaeth (fel sy'n wir gyda'r rhan fwyaf o waith trwsio i adeilad). Mae hawleb yn sicrhau safonau cyflwyno a phriodolrwydd uchel yn ein heglwysi. Mae cynnwys yn rhan fawr o'r hyn sy'n rhoi llawer o'u cymeriad, eu harwyddocâd a'u hawyrgylch i lawer o'n hadeiladau.

Mae'r Cyfansoddiad yn nodi gwahanol eithriadau i'r rheol gyffredinol hon lle nad oes angen hawleb. Mae Atodiad II yn rhestru'r eitemau cynnwys y gellir eu cyflwyno, eu symud neu eu gwaredu heb fod angen cymeradwyaeth hawleb. Mae'r rhain yn rhan o restr waith fwy y gellir ei chyflawni mewn perthynas ag eglwys neu fynwent heb yr angen am gydsyniad hawleb ac fe'u gelwir yn Eitemau Rhestr A.

Yn yr un modd, gall Cofrestrydd yr Esgobaeth roi caniatâd hawleb ar lefel is ar gyfer eitemau cynnwys eraill y gellir eu cyflwyno, eu symud neu eu gwaredu. Unwaith eto, mae'r rhain yn rhan o restr waith fwy y gellir ei chyflawni mewn perthynas ag eglwys neu fynwent ac fe'u gelwir yn Eitemau Rhestr B. Mae Atodiad III yn rhestru'r eitemau cynnwys hyn.

Nodwch fod eitemau Rhestrau A a B wedi'u cyflwyno ym mis Ionawr 2018 ar yr un pryd â'r System Hawlebau Ar-lein ac nad ydynt ar gael drwy ddefnyddio ffurflenni hawlebau papur.

Dylid cymryd bod angen cymeradwyaeth hawleb lawn ar gyfer caniatâd i gyflwyno, symud neu waredu eitemau nad ydynt wedi'u rhestru'n benodol yn Atodiadau II a III. Cysylltwch ag Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth am ragor o wybodaeth.

## 5. Gwaredu

Fel arfer, bydd eitemau cynnwys yn cael eu nodi ar gyfer eu gwaredu yn dilyn cau eglwys. Fodd bynnag, gall rhai gael eu nodi hefyd wrth ystyried cynigion ad-drefnu neu pan ystyrir nad oes angen yr eitem o ran y gofynion presennol.

Pan fydd plwyf yn dymuno gwaredu cynnwys o eglwys, dylai'r Cyngor Plwyf Eglwysig:

1. Ymgynghori â Phwyllgor Eglwysi a Bugeiliol yr Esgobaeth (DCPC)
2. Trafod y sefyllfa ag Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth i weld a oes angen hawleb (oni bai ei bod yn eitem Rhestr A – gweler Atodiad II)
3. Cael caniatâd Corff y Cynrychiolwyr y mae'n rhaid iddo gymeradwyo'r gwaredu

Yn achos 1 a 2 uchod, dylai'r Cyngor Plwyf Eglwysig gysylltu â'r Ysgrifennydd perthnasol i ofyn am gyngor ar weithdrefnau'r Esgobaeth. Yn achos rhif 3, mae'r Cyfansoddiad yn nodi grym Corff y Cynrychiolwyr i werthu eiddo a chynnwys. Yn yr achos hwn, mae angen i Gorff y Cynrychiolwyr gymeradwyo unrhyw waredu a chael cydsyniad yr Esgob. Yn achos tir cysegredig neu eitemau a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad ag unrhyw sacrament, mae angen mwyafrif o ddau draean o Gorff y Cynrychiolwyr i ganiatáu'r gwaredu.

Mae Corff y Cynrychiolwyr wedi dirprwyo'r grym i waredu eitemau sy'n werth hyd at £5,000 i Bennaeth y Gwasanaethau Eiddo cyn belled:

- Nad yw Pwyllgor Eglwysi a Bugeiliol yr Esgobaeth yn gwrthwynebu'r cynnig a bod caniatâd hawleb yn cael ei sicrhau

- Bod y Cyngor Plwyf Eglwysig yn darparu prisiad proffesiynol gan arbenigwr annibynnol, lle bo'n briodol, neu'n ceisio'r gwerth gorau drwy hysbysebu yn y wasg. Pan fydd yna nifer o eitemau neu un eitem o werth sylweddol, disgwylir y gofynnir am ddyfynbrisiau gan EIG neu gwmnïau achub pensaernïol, yn ogystal â ffynonellau lleol, i sicrhau'r gwerth gorau. Mae Ebay neu wefannau gwerthu tebyg yn opsiwn arall derbyniol os oes gan blwyf gyfleusterau cyfrifiadurol

- Nad yw'r eitem dan sylw yn drysor eglwysig (gweler Adran 6 isod)

Ym mhob achos arall, yn cynnwys gwaredu trysorau eglwysig, bydd gwaredu'n cael ei ystyried gan Bwyllgor Eiddo Corff y Cynrychiolwyr.

## 6. Trysorau Eglwysig

Mae'r diffiniad o drysor eglwysig wedi'i nodi yn yr adran ddiffiniadau (ar ddechrau'r ddogfen hon). Polisi Corff y Cynrychiolwyr yw ymatal rhag gwerthu eitemau o'r fath.

Bydd penderfynu a yw eitem benodol yn drysor eglwysig yn cael ei wneud fesul achos. Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn gwneud y penderfyniad hwn ar sail cyngor gan:

- Esgob yr Esgobaeth
- Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth
- Y Comisiwn Cadeirlannau ac Eglwysi

Gofynnir iddynt roi eu barn ar rinweddau'r eitem, gan ystyried y diffiniad a ddisgrifiwyd fel y nodir.

Dylid hefyd ystyried cyfleoedd i fenthyg trysor i sefydliad priodol, fel amgueddfa genedlaethol, i osgoi gwaredu'n gyfan gwbl.

## 7. Gweithdrefnau Penodol pan fydd Eglwys yn Cau/Ddiangen

Pan fydd eglwys yn cau, mae'r Cyfansoddiad yn nodi bod rhaid i'r Cyngor Plwyf Eglwysig ddarparu rhestr eiddo o'r holl gynnwys i Gorff y Cynrychiolwyr.

Dylai'r rhestr eiddo hon nodi'r gwahanol eitemau a'r opsiwn y bwriedir ei ddefnyddio i waredu neu ail-leoli. Mae'n ddefnyddiol edrych ar bob eitem a'i ddosbarthu i un o'r categorïau canlynol:

1. Ail-leoli i eglwys arall yn y plwyf neu'r ardal weinidogaeth
2. Ail-leoli i eglwys arall yn y Dalaith
3. Ei roi fel rhodd neu ar fenthyg i sefydliad arall
4. Gwerthu
5. Gadael yn yr eglwys ar ôl nodi ei bod yn ddiangen (hyn yn digwydd fel arfer gydag eitemau sefydlog yn enwedig mewn Adeilad Rhestredig)
6. Sgrapio

Lle bo'n bosibl, dylid cael cyngor arbenigol ar wrthrychau o fewn eglwys. Bydd hyn yn helpu i nodi gwrthrychau gwerthfawr o ran trysorau eglwysig posibl a hefyd yn sicrhau bod unrhyw eitemau a werthir yn cyrraedd eu gwerth llawn. Dylid nodi trysorau eglwysig posibl yn glir yn gynnar i'w hystyried ymhellach.

Unwaith y bydd y rhestr eiddo hon wedi'i pharatoi, gellir ei defnyddio fel sail ar gyfer ymgynghori â Phwyllgor Eglwysi a Bugeiliol yr Esgobaeth wrth wneud cais am Hawleb.

Bydd Pwyllgor Eglwysi a Bugeiliol yr Esgobaeth yn gofyn am gyngor gan Bwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth ar gau'r eglwys, ac ar y cynnwys. Bydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn darparu adroddiad ar rinweddau pensaernïol, archaeolegol, artistig a hanesyddol yr eglwys a'i chynnwys.

Mae'n bosibl y bydd eitemau penodol o gynnwys sefydlog yn destun cyfamodau cyfyngedig mewn unrhyw werthiant er mwyn atal eu symud heb gytundeb yr Eglwys a/neu eu trosglwyddo yn ôl i'r Eglwys yng Nghymru. Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol yn achos clychau, gwydr lliw, cerfluniau hynafol neu henebion.

## 8. Cyflwyniadau/Cynnwys Newydd

Ac eithrio'r amgylchiadau a restrwyd yn Atodiadau II a III, bydd angen hawleb i gyflwyno eitemau cynnwys newydd.

Fodd bynnag, ni ddylai hyn atal plwyfi rhag ceisio cyflwyno eitemau newydd o safon uchel i'w heglwysi. Mae cael eglwysi sy'n adlewyrchu'r presennol (a'r dyfodol) yn ogystal â'r gorffennol yn hanfodol i iechyd a bywiogrwydd bywyd y plwyf.

Mae enghreifftiau nodweddiadol o eitemau newydd a gyflwynir yn ymwneud â gwydr lliw a seddi, sy'n cael eu harchwilio'n fanylach isod ond mae llawer o'r materion a godir gan seddi a gwydr yn berthnasol i eitemau cynnwys eraill hefyd.

## 9. Gwydr Lliw

Mae Corff y Cynrychiolwyr wedi paratoi canllawiau ar wydr lliw. Cysylltwch â'r Adran Eiddo am gopi ar 02920 348200 neu e-bostiwch property@churchinwales.org.uk.

Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio'n benodol ar gyflwyno gwydr lliw newydd ond hefyd yn rhoi rhai dolenni i wybodaeth ddefnyddiol am drwsio a gofalu am wydr lliw sydd yn ei le'n barod.

## 10. Goleuadau

Mae Corff y Cynrychiolwyr wedi paratoi canllawiau ar oleuadau mewn eglwysi. Cysylltwch â'r Adran Eiddo am gopi ar 02920 348200 neu e-bostiwch property@churchinwales.org.uk.

## 11. Corau a Seddau

Mae tynnu'r corau o gorff yr eglwys neu'r ystlysau a gosod cadeiriau symudol y gellir eu stacio yn eu lle yn dod yn ddull newydd poblogaidd i wneud eglwys i edrych yn fwy modern, ac i gynnig mwy o hyblygrwydd o fewn yr adeilad ar gyfer addoliad Cristnogol a digwyddiadau cymunedol.

Nid bwriad y wybodaeth ganlynol yw dylanwadu ar egwyddor y penderfyniad hwnnw naill ffordd neu'r llall gan fod yna achosion amlwg wedi bod pan mae cadeiriau wedi dod â chwa o awr iach i gynulleidfaoedd a phosibiliadau newydd cyffrous. Fodd bynnag, ni fydd clirio'r corau yn unig yn adfywio neu'n gwella unrhyw beth, oni bai bod yna bwrpas a gweledigaeth glir yn cael eu pennu yn gyntaf. Mae'r un mor bwysig gwerthfawrogi ymarferoldeb symud corau ag

ydyw i gyflwyno cadeiriau. Mae yna fwy o ffactorau i'w hystyried yma nag y byddai rhywun yn tybio i ddechrau o bosibl.

Dylid cofio hefyd fod mwyafrif yr eglwysi'n adeiladau rhestredig, ac y bydd y corau wedi'u cynnwys yn yr amddiffyniad cyfreithiol hwnnw. Bydd eglwys o'r 19eg ganrif wedi cael ei dylunio gan bensaer proffesiynol gyda'i weledigaeth artistig yn cynnwys corau priodol, efallai yn ôl ei ddyluniad ei hun. Bydd cais i dynnu corau o'r fath o'r eglwysi Fictoraidd gorau yn debyg o gael ei wrthod felly; yn yr un modd, bydd ceisiadau i dynnu corau sy'n bwysig yn ôl eu haeddiant eu hunain, er enghraifft am eu cerfio o safon uchel mewn eglwys o unrhyw gyfnod, yn debyg o gael eu gwrthod. Mae'r un peth yn wir gyda chorau hynafol mewn eglwysi canoloesol a chorau bocs o'r 18fed ganrif, er eu bod bellach yn brin.

Cofiwch hefyd fod eglwys a'i holl gynnwys yn eiddo i Gorff y Cynrychiolwyr nid y plwyf ei hun. Felly, ni all Cyngor Plwyf Eglwysig waredu corau; mae angen gofyn am ganiatâd fel rhan o'r cais am hawleb.

**Eitemau i'w Hystyried**

Dylid ystyried y pwyntiau canlynol yn ofalus yn ystod y broses o wneud penderfyniadau:

- Pam ydych chi am dynnu'r corau? Pa anghenion ydych chi'n eu diwallu? Beth fydd y manteision? Mae ymholiadau wedi awgrymu nad yw'r cadeiriau newydd a gafwyd yn lle corau wedi'u symud ers y diwrnod y cawsant eu gosod mewn rhai eglwysi. Ydy hi'n werth y gost a'r holl waith?

- Bydd tynnu'r corau'n newid tu mewn yr eglwys yn sylfaenol. A fydd hyn yn niweidio cymeriad hanesyddol yr adeilad? A fydd aelodau hŷn y gynulleidfa yn arbennig, y mae'r eglwys yn golygu cymaint iddynt, yn derbyn hyn yn hawdd?

- Weithiau, doedd penseiri Fictoraidd ddim yn trefnu bod dwy neu dair troedfedd isaf colofnau arcêd yn cael eu cerfio i lawr i'r ddaear gan eu bod yn gwybod y byddai'r corau'n eu cuddio. Mae'r gwaith carreg crai sydd i'w weld yn gallu bod yn hyll iawn. Mewn eglwysi canoloesol, fodd bynnag, nad oedden nhw wedi'u dylunio ar gyfer corau, gall y gwrthwyneb fod yn wir os yw'r arcêd i'w weld yn llawn eto.

- Gall cadeiriau leihau capasiti eistedd yn sylweddol. Gallai hyn fod yn anfantais i eglwysi lle mae digwyddiadau arbennig fel priodasau yn boblogaidd.

- Gall corau fod yn effeithlon iawn. Maen nhw'n cynnig silff ar gyfer y llyfr gweddi wrth sefyll neu weddïo, bwrdd penlinio neu fachyn i hongian clustog penlinio unigol, lle i roi côt allan o'r golwg oddi tano, neu gerllaw'r eisteddwr a chanllaw cadarn yn y blaen i helpu addolwr hŷn i godi, eistedd neu benlinio. Mae yna gynhaliaeth yn y blaen i orffwys eich penelinoedd ac i'ch hanner cuddio ar adegau pan fyddwch yn gweddïo'n breifat. Nid oes gan gadeiriau stacio focsys ar y cefn i ddal llyfrau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio ac maen nhw'n cynnig llai o gynhaliaeth i'r rhai sydd angen cymorth i sefyll. Bydd angen clustogau penlinio os nad oes rhai'n cael eu defnyddio eisoes.

- Efallai na fydd cadeiriau yn fwy cyffyrddus na chorau os nad oes defnydd ar y sedd. Mae'r rhain yn costio llawer mwy ac yn drymach ac anoddach i'w stacio. Gellir creu clustogau eistedd syml i gorau os oes angen.

- Mae gan rai eglwysi baneli ar hyd y waliau ochr ac mae pen y corau wedi'u ffitio i'r rhain. Bydd tynnu'r corau yn gadael marciau hyll.

- Yn aml bydd y system gwres canolog wedi'i chynllunio i redeg o dan bob côr. Bydd tynnu'r corau yn gofyn am system newydd sbon.

- Mae'r llawr yn broblem fawr hefyd. Ar beth mae'r corau'n sefyll? Mewn eglwysi hynafol, efallai eu bod wedi'u gosod ar blatfformau pren dros gerrig llorio yn ystod y 19eg ganrif. Efallai na fydd carped yn ddigon i atal pobl rhag baglu ac i gadeiriau ysgwyd. Efallai y daw hen gerrig beddau i'r golwg, a allai ychwanegu gwerth hanesyddol, ond ni all coesau cadeiriau sydd wedi'u difrodi sefyll arnynt. Mewn eglwysi Fictoraidd, roedd y corau wedi'u gosod ar ardaloedd o fwrdd pren, gyda theils llosgliw lliw yn rhedeg ar hyd yr ystlysau. Sut y bydd hyn yn edrych gyda chadeiriau? Gallai tynnu corau ddifrodi'r estyll llawr presennol a bydd angen gosod rhai newydd yn eu lle o bosibl.

- Mae carped yn cael ei ystyried yn ateb yn aml wrth osod cadeiriau, ond efallai na fydd yn para i edrych yn dda am gyfnod hir. Mae traed gwlyb yn anochel ynghyd â thraed yn troedio yn yr un llefydd. Sut olwg fydd ar garped o'r fath ar ôl rhai blynyddoedd wrth i'r cadeiriau gael eu symud ar gyfer digwyddiadau eraill?

- Pwy fydd yn gwneud y gwaith corfforol o symud a stacio'r cadeiriau? Mae'r rhan fwyaf o eglwysi plwyf nawr yn dibynnu ar lond llaw o aelodau ffyddlon sydd wedi gwneud tasgau penodol ers blynyddoedd. Mae stacio hyd yn oed tair cadair yn drwm. Pwy fydd yn delio â hyn nawr ac ymhen ychydig flynyddoedd?

- Ble fydd y cadeiriau'n cael eu storio? Dydy pentyrrau o gadeiriau ddim yn beth sobor o hardd a gallant gymryd lle. Mae eu cadw o'r golwg (e.e. yn y festri) yn golygu mwy o waith.

- Mae ad-drefnu ychydig o gorau reit yng nghefn corff yr eglwys yn sgwâr agored i wneud lle i famau ifanc a phlant yn digwydd yn aml bellach ac mae'n annhebygol y bydd yna wrthwynebiad i hyn.

- Mewn eglwysi dwy ystlys, mae yna opsiwn o dynnu'r corau o un ystlys. Nid yw hyn yn debyg o fod yn ddadleuol, gan ei fod yn darparu lle gwych ar gyfer boreau coffi ac ati, er y gallai llawer o'r un problemau ag a restrwyd uchod godi gyda hyn hefyd.

- Mae Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth yn debygol o gytuno i gais i dynnu corau os gellir cadw cymaint ohonynt â phosibl (e.e. i'w rhoi o amgylch y waliau). Bydd hefyd yn darparu

tystiolaeth o sut yr arferai’r eglwys edrych. Efallai y bydd angen arolwg ffotograffig llawn hefyd cyn tynnu unrhyw gorau.

- Mae yna gynlluniau newydd cyffrous ar gyfer corau symudol sy’n cynnig hyblygrwydd a chyfforddusrwydd ac maen nhw’n werth i’w hystyried.

- Mae creu lle agored, clir hefyd yn golygu bod yna le i storio pethau eraill a all arwain at eglwysi anniben a blêr. Mae angen i dynnu corau fynd law yn llaw â chynllunio ar gyfer storio a thaclusrwydd cyffredinol.

Bwriad y rhestr o bwyntiau uchod yw helpu pobl i drafod nid ceisio eu darbwyllo i roi’r gorau i’r syniad o wneud rhywbeth, ac amlygu’r materion sy’n rhaid i gynulleidfaoedd eu hystyried wrth osod cadeiriau yn lle corau. Mae hwn yn newid mawr, a drud o bosibl, i fywyd ac edrychiad eglwys na ellir ei ddadwneud felly mae’n haeddu sylw arbennig. Nid oes unrhyw amheuaeth bod yna fanteision os bydd y cynlluniau wedi’u hystyried yn drylwyr. Fodd bynnag, mae pob plwyf a bywyd pob plwyf yn wahanol; felly dydy dilyn ffasiwn ddim yn rheswm da ynddo’i hun.

# ATODIAD I

## CANLLAWIAU SPAB AR LANHAU MEWN EGLWYSI

Dylid cymryd gofal a phwyll wrth lanhau y tu mewn i fan addoli hanesyddol er mwyn osgoi creu difrod i'r ffabrig hanesyddol.

**Dodrefn pren, cerfiadau a phaneli waliau ac ati**

Dystiwch y rhain yn ysgafn iawn gyda brwsh meddal. Mae'n bosibl defnyddio sugnydd llwch ar ei osodiad isaf os nad oes unrhyw ddarnau rhydd ar wyneb y gwrthrych. Os ydych chi'n defnyddio sugnydd llwch, dylid gorchuddio'r blaen â rhwyll (mae pâr o deits yn gweithio'n dda). Mae'n syniad da lapio darn o rwber sbwng o amgylch blaen y sugnydd llwch i helpu i atal difrod i waith cerfiedig hefyd, er dylech geisio osgoi cyffwrdd yr wyneb sy'n cael i lanhau. Fel arall, gallwch ddefnyddio brwsh blew mochyn i lanhau'r llwch o agennau ac o waith cerfiedig tra byddwch chi'n dal blaen y sugnydd llwch yn eich llaw arall. Gellir glanhau pren wedi'i bolisio yn yr un ffordd gan ddefnyddio cadach neu ledr bwff i gaboli'r wyneb yn achlysurol. Dylech ond defnyddio ychydig iawn o bolish cŵyr gwenyn unwaith neu ddwywaith y flwyddyn i'w atal rhag cronni ar yr wyneb.

**Llawr pren**

Dylid rhoi polish sych ar loriau pren cyfredol o dro i dro. Gallwch ddefnyddio cadach gwlân (di-wlaniach) wedi'i drwytho mewn cymysgedd gyfartal o baraffîn a finegr i gasglu llwch a gadael y llawr yn sgleinio. Gwnewch yn siŵr nad ydych yn creu haen rhy drwm o gŵyr gan y gallai hyn wneud y llawr yn llithrig, denu llwch ac amharu ar allu'r pren i anadlu. Dylid golchi estyll pren heb eu polisio pan fydd hynny'n gwbl angenrheidiol yn unig. Defnyddiwch cyn lleied â phosibl o ddŵr oer neu gynnes (nid poeth) ac ychydig o sebon pH niwtral os oes angen. Rinsiwch yr ardal â dŵr clir a'i sychu gyda mop sych.

**Llawr carreg**

Dylid glanhau lloriau carreg, marmor a terazzo yn achlysurol iawn yn unig gyda mop llaith, yna'i rinsio gyda dŵr clir a sychu'r llawr gyda mop sych. Fel gydag estyll pren, defnyddiwch cyn lleied o ddŵr oer neu gynnes (nid poeth) ag sy'n bosibl ac ychydig o sebon pH niwtral os oes angen. Rhwng yr adegau glanhau dylid brwsio lloriau carreg yn lân.

*Cerameg:* Gellir golchi teils llawr, teils wal a mosaigau gyda dŵr glân. Os yw teils neu frics y llawr yn sgleiniog, gellir eu golchi gyda mop a dŵr sy'n cynnwys ychydig bach o lanedydd pH niwtral. Golchwch hwn i ffwrdd gyda dŵr glân a sychwch gyda chadach meddal. Peidiwch â defnyddio gormod o ddŵr a byddwch yn ymwybodol bod gormod o olchi'n gallu achosi difrod i arwyneb y teils. Dylid cael gwared ar raean rhydd a llwch drwy ddefnyddio sugnydd llwch neu frwsio i'w atal rhag crafu arwyneb y teils. Gellir cael gwared ar faw o fricwaith trwy ddefnyddio brwsh blew sych - bydd defnyddio dŵr yn gwaethygu'r broblem.

**Cofebau**

Dystiwch yn ysgafn gyda brwsh meddal oni bai eu bod yn arbennig o fregus. Dylech adael y gwaith o warchod cofebau bregus i gadwraethwr medrus.

**Cerrig beddau a cherfluniau awyr agored**

Ar y cyfan, mae'n well peidio â cheisio glanhau gwrthrychau o'r fath yn enwedig os ydynt wedi'u gorchuddio gan gennau. Dylid osgoi hylif glanhau marmor a gwenithfaen masnachol yn bendant, yn enwedig os ydynt yn cynnwys sodiwm hypoclorid (cannydd) neu sodiwm hydrocsid (soda costig) gan y gallai'r cemegion hyn greu difrod sylweddol ar wyneb y garreg.

**Pres**

Dystiwch yn ysgafn unwaith neu ddwywaith y flwyddyn gan gael gwared ar faw sydd wedi'i ddal mewn addurnwaith ac agennau'n ofalus gyda brwsh blew meddal. Ni ddylid defnyddio polish pres i sgleinio pres ond fe allai defnyddio cŵyr micro-crystalline yn achlysurol fod yn briodol i helpu i amddiffyn y pres rhag elfennau cyrydol. Ni ddylid glanhau eitemau pres canoloesol a dylid cael cyngor arbenigol os oes gwaddodion llwch a baw yn peri pryder.

**Efydd**

Dystiwch yn ysgafn unwaith neu ddwywaith y flwyddyn gan gael gwared ar faw sydd wedi'i ddal mewn addurnwaith ac agennau'n ofalus gyda brwsh blew meddal. Does dim angen polisio na golchi efydd.
Alwminiwm: Glanhewch gyda dŵr cynnes a sebon gan ddefnyddio cadach yna sychwch a pholisiwch yr wyneb gyda chadach sych meddal.

**Gwydr clir**

Golchwch gyda dŵr glân sy'n cynnwys ychydig diferyn neu ddau o wirod methyl. Defnyddiwch gadach glân meddal yna sychwch y gwydr a pholisiwch gyda siami. Byddwch yn ofalus iawn os yw'r gwydr yn denau neu'n fregus. Dylid osgoi defnyddio deunyddiau glanhau ffenestri masnachol gan eu bod yn gallu gadael olion powdwr ar hyd ymylon a chorneli.

**Gwydr lliw**

Gellir dystio gwydr lliw Fictoraidd a diweddarach sydd mewn cyflwr da yn ysgafn gyda brwsh meddal. Gall gwydr lliw canoloesol fod yn fregus iawn a rhaid wrth ofal arbenigol oherwydd teneuwch y deunydd a natur haen y paent. Cadwraethwyr cymwys yn unig ddylai lanhau gwydr hanesyddol bwysig.

**Paentiadau ar waliau (murluniau)**

Gan fod paentiadau ar waliau yn gallu bod yn fregus iawn dylent gael eu glanhau gan gadwraethwr cymwys priodol yn unig. Mae'r cyngor hwn yn berthnasol i furluniau canoloesol ac i gynlluniau addurnol mwy diweddar yn ogystal â phaentiadau ar gynfas neu gefndir pren.

Gwaith paent plaen ar waliau: Cyn glanhau unrhyw arwynebau wedi'u paentio, mae'n rhaid i chi weld beth yw natur y deunydd. Gwyngalch yw'r gorffeniad traddodiadol a ddefnyddir ar waliau a dylid ei frwsio'n ysgafn â brwsh llawr meddal neu frwsh yn hytrach na'i olchi. Yn achos arwynebau emylsiwn mwy modern gallwch sychu'r arwyneb gyda chadach ac ychydig o ddŵr wedi'i gymysgu ag ychydig o lanedydd pH niwtral. Dylid osgoi glanhawyr neu bowdrau ffrithiol masnachol oherwydd gallent ddifrodi'r arwyneb. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n profi ardal fechan yn gyntaf i sicrhau nad yw'r dull glanhau a ddewiswyd yn tynnu'r paent i ffwrdd.

**Carpedi a rygiau**

Dylid hwfro'r rhain yn aml i atal difrod yn sgil llwch a baw. Codwch y carpedi a brwsio oddi tanynt lle bo'n bosibl i gael gwared ar raean a baw wedi'i ddal.

**Tecstilau**

Ni ddylid golchi neu sychlanhau tecstilau sydd o ddiddordeb hanesyddol. Yn hytrach, dylent gael eu glanhau gan arbenigwr sydd wedi cymhwyso'n briodol. Mae'r un cyngor yn berthnasol i decstilau sy'n cynnwys gleiniau neu ymylon rhydd neu'r rhai bregus eu natur.

**Dodrefn meddal/clustogwaith/lledr**

Gellir patio clustogwaith yn ysgafn gyda lladdwr pryfaid plastig i ryddhau baw cyn defnyddio sugnydd llwch. Dylai blaen y sugnydd llwch gael ei orchuddio â rhwyll neilon a dylid defnyddio'r sugnydd llwch ar y gosodiad pŵer isaf. Ceisiwch sicrhau nad yw blaen y sugnydd llwch yn dod i gysylltiad â'r dodrefn. Glanhewch ledr gydag ychydig o sebon lledr a chadach meddal.

# ATODIAD II

## RHESTR A O EITEMAU SY’N YMWNEUD Â CHYFLWYNO, SYMUD NEU WAREDU CYNNWYS

Nid oes angen caniatâd ar gyfer yr eitemau canlynol er rydym yn argymell i blwyfi eu cofnodi ar y System Hawleb Ar-lein i greu cofnod parhaol o’r hyn sydd wedi’i wneud.

| Eitem | Amodau a Bennwyd |
|---|---|
| Cyflwyno, tynnu ymaith neu waredu clustogau pen-glin, stolion penlinio, clustogau hir a chlustogau ar gyfer seddau | Nid yw cyflwyno, tynnu ymaith neu waredu'r eitemau yn arwain at newid i ymddangosiad cyffredinol yr eglwys.<br><br>Nid oes unrhyw eitem o ddiddordeb hanesyddol neu artistig yn cael ei thynnu ymaith na'i gwaredu. |
| Cyflwyno, tynnu ymaith neu waredu:<br><br>(a) silffoedd llyfrau symudol<br>(b) llyfrau<br>(c) hysbysfyrddau annibynnol<br>(d) stondinau arddangos symudol<br>(e) criwetau<br>(f) fasys a stondinau blodau<br>(g) byrddau emynau<br>(h) llieiniau allor (ond nid blaenlenni neu lieiniau pulpudau)<br>(i) fflagiau a baneri a ddefnyddir mewn arddangosiadau dros dro (ond nid gosod fflagiau, na thynnu ymaith neu waredu fflagiau sydd wedi’u gosod)<br>(j) Y Ddraig Goch, neu faner Dewi Sant neu faner yr Eglwys yng Nghymru neu faner yr Undeb i’w hedfan o’r eglwys | Nid oes unrhyw eitem o ddiddordeb hanesyddol neu artistig yn cael ei dynnu ymaith na'i gwaredu |

## ATODIAD III

### RHESTR B O EITEMAU SY’N YMWNEUD Â CHYFLWYNO, SYMUD NEU WAREDU CYNNWYS

Mae angen caniatâd gan Gofrestrydd yr Esgobaeth ar gyfer yr eitemau canlynol ac mae’n rhaid gwneud cais drwy’r System Hawlebau Ar-lein.

| Eitem | Amodau a Bennwyd |
|---|---|
| Cyflwyno, cynnal a chadw neu ddisodli cyfarpar clyweledol symudol a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau eglwysig | Nid oes unrhyw gyfarpar wedi’i osod yn sefydlog fel rhan o ffabrig yr eglwys |
| Disodli carpedi neu orchudd llawr arall a’r isgarped | Dylid defnyddio isgarped anadladwy yn unig pan fydd isgarped newydd yn cael ei osod.<br><br>Mae manylion y lliw a’r gosodiadau y bwriedir eu defnyddio’n cael eu cyflwyno i’r Cofrestrydd, pan ymgynghorir â’r Cofrestrydd ar y cynnig i ymgymryd â’r mater hwn. |
| Disodli llenni (ac eithrio llenni a phethau eraill sy’n hongian yn yr allor) | |
| Cyflwyno llyfr coffáu a stondin | |
| Cyflwyno hysbysfwrdd mewnol sefydlog | |
| Gwaredu cadeiriau annibynnol | Ni ddylid gwaredu unrhyw gadeiriau o ddiddordeb hanesyddol neu artistig |
| Gosod piano cyngerdd newydd yn lle un arall a chael gwared ar yr hen biano | Ni ddylid gwaredu unrhyw biano o ddiddordeb hanesyddol neu artistig |